Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# MAE EIN DYFODOL YN DECHRAU GYDA CHI...TYFU GYDA'N GILYDD

## RHAGLEN HYFFORDDIANT I'CH HELPU YN EICH GYRFA YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR, GOFAL PLANT A CHWARAE

Cynnydd ar gyfer **Llwyddiant**
Progress for **Success**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **cymrungweithio.llyw.cymru** neu **busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

## Ydych chi'n gweithio rhwng 10 a 16 awr yn y sector Gofal Plant a Chwarae? Hoffech chi gael hyfforddiant i'ch helpu i gamu ymlaen yn eich gyrfa?

**Mae gwylio plant ifanc yn tyfu ac yn datblygu yn brofiad anhygoel. Cyn i ni sylweddoli, maen nhw'n symud yn gyflym drwy fywyd.**

Nod **Cynnydd ar gyfer Llwyddiant** yw sicrhau bod plant ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae pawb yn gwybod pa mor bwysig yw'r blynyddoedd cynnar i ddatblygiad plentyn, ac rydym yn cydnabod bod darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn arwain at ganlyniadau gwell i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl hollbwysig wrth helpu plant ifanc i ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol, gan helpu i'w paratoi ar gyfer yr ysgol a gwneud y gorau o'u haddysg.





Bydd rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn darparu arian penodol i dreialu'r ddau fframwaith prentisiaeth newydd ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) a Gwaith Chwarae i 500 o ymarferwyr sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos yng Nghymru ar hyn o bryd.

Bydd staff sy'n gweithio'n rhan amser yn cael y cyfle i astudio ar gyfer y cymwysterau cydnabyddedig newydd hyn ar lefelau 2 a 3 o 1 Awst 2019.

Mae'r arian hwn wedi'i dargedu'n benodol at staff sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos ar hyn o bryd ac nad ydynt yn gymwys i ddilyn y Rhaglen Brentisiaeth brif ffrwd.

*** Gall yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy fod yn gymwys i gael cymorth ariannol drwy'r Rhaglen Brentisiaeth.**

Bydd y rhaglen yn sail i'r broses o gyflwyno'r Cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) newydd, a fydd ar gael i'w addysgu o 1 Medi 2019.

## Ydy hwn yn addas i mi?

Rhaid i chi fod yn weithiwr cyflogedig neu hunangyflogedig mewn lleoliad gofal plant neu chwarae a rhaid bod gennych gontract cyflogaeth rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos. Ni ddylech fod yn gymwys i ddilyn y Rhaglen Brentisiaeth brif ffrwd.

Gallwch fod yn gweithio mewn lleoliad sydd wedi'i gofrestru neu leoliad sydd heb ei gofrestru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i leoliadau sydd heb eu cofrestru allu dangos eu bod yn gweithio tuag at gael eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).



Bydd yn rhaid i chi gyflawni'r hyfforddiant o fewn y Fframwaith Prentisiaeth. Rydym yn rhagweld y gallai fod angen mwy o amser arnoch i gwblhau'r fframwaith am y byddwch yn treulio llai o oriau yn y gwaith ac yn gweithio.

***gall meini prawf eraill fod yn gymwys**

## Ennill eich cymhwyster



Bydd darparwr hyfforddiant y cafodd ei ansawdd ei sicrhau yn gweithio gyda chi a'ch cyflogwr i deilwra hyfforddiant i ddiwallu eich anghenion.

Mae Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn ariannu'r cymwysterau canlynol a gallwch ddewis p'un a hoffech gael hyfforddiant yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

- Prentisiaeth Gwaith Chwarae Lefel 2
- Prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2 (ar gael o 1 Medi 2019)
- Prentisiaeth Gwaith Chwarae Lefel 3
- Prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 ( ar gael o 1 Medi 2019)

## Y buddiannau

Bydd eich hyfforddiant yn cael ei ariannu'n llawn a chewch eich talu gan eich cyflogwr o hyd. Bydd Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn talu am y Brentisiaeth.

Gallwch wella eich sgiliau Cymraeg drwy ddilyn eich hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg).

**Ar ôl i chi orffen eich hyfforddiant, cewch fudd o'r canlynol:**

- Byddwch wedi ennill cymhwyster a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol sy'n rhoi cyfle i chi gamu ym laen yn eich gyrfa ac yn eich galluogi i roi gofal o safon uwch i'r plant rydych yn gyfrifol a mdanynt.
- Efallai y gallwch fanteisio ar gyfleoedd eraill sydd ar gael o dan Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.



## Ewch amdani!

Siaradwch â'ch cyflogwr am y cyfle hwn. Gallwch chi a'ch cyflogwr wneud cais. Rydym wedi penodi darparwyr hyfforddiant lleol o ansawdd a fydd yn cyflwyno'r rhaglen ac yn teilwra'r hyfforddiant i'ch anghenion.

Os ydych yn gyflogai ac yr hoffech wybod mwy, cysylltwch â Cymru'n Gweithio ar **0800 028 4844**.

Os ydych yn gyflogwr, cysylltwch â'r Porth Sgiliau, sy'n rhan o Busnes Cymru, ar **03000 6 03000**.